# Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

## Canlyniadau Holiadur Rhagfyr 2017

**Dyddiad Cyflwyno:** 2018-01-10

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Methodoleg | 4 |
| Ymatebion i'r holiaduron | 5 |


YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno canlyniadau o'r ymgynghoriad bu i'r Gwasanaeth Ieuenctid ei gynnal o'r 13eg o Dachwedd i'r 22ain o Ragfyr 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno opsiwn a ffafrir ar gyfer ail-fodelu'r gwasanaeth, yn unol a penderfyniad y Cabinet ym mis Hydref 2017.

# 2. Methodoleg

Defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd yr holiadur ar gael i'w ateb ar-lein o'r 13eg o Dachwedd i'r 22ain o Ragfyr 2017, gyda chopïau papur hefyd ar gael o lyfrgelloedd a siopau Gwynedd. Roedd yn cynnwys fideo i'w wylio ac yna cyfres o gwestiynau i'w ateb am y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau ieuenctid.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo drwy'r dudalen 'Dweud eich dweud' ar wefan Cyngor Gwynedd, a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd hefyd yn cael ei hyrwyddo ac ymgyrch wedi cael ei wneud i'w ateb drwy nifer o glybiau gwahanol yn y sir megis Clybiau Ieuenctid y Cyngor, Clybiau Ffermwyr Ifanc ayyb.

Adlewyrchir llwyddiant yr ymgyrchoedd yma yn y nifer uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi y cafwyd nifer o sylwadau ac atebion meintiol tebyg iawn i'w gilydd o fewn yr un ardaloedd; rydym wedi cynnwys yr holl ymatebion yma yn llawn yn y dadansoddiad.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

# 3. Ymatebion i'r holiaduron

Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron. Derbyniwyd cyfanswm o 3,391 dilys i'r holiadur.

### 3.01 Ydych chi'n cwblhau'r holiadur fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu fusnes?

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ymateb fel unigolyn, gyda chanran bychan wedi ateb ar ran sefydliad neu fusnes.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ar ran sefydliad neu fusnes (e.e. Yr Heddlu, NSPCC, Cyngor Cymuned) | 34 | 1.0 |
| Fel unigolyn | 3,349 | 98.8 |
| Dim ateb | 8 | 0.2 |
| | 3,391 | 100.0 |

Roedd rhai o'r sefydliadau neu fusnesau yn cynnwys ysgolion, colegau, clybiau chwaraeon, cynghorau cymuned, gofalwyr, yr urdd a mudiad ffermwyr ifanc, a gwasanaethau gwahanol o fewn Cyngor Gwynedd.

### 3.02 Beth yw eich oedran?

Gwelir fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran 11 i 15 oed (69.4%, N=2,354), gyda chanran bychan o'r ymatebwyr yn berson ifanc o dan 11 oed (1.8%, N=61).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed | 61 | 1.8 |
| Dwi'n berson ifanc 11-15 oed | 2,354 | 69.4 |
| Dwi'n berson ifanc 16-24 oed | 475 | 14.0 |
| Dwi dros 24 oed | 465 | 13.7 |
| Dim ateb | 36 | 1.1 |
| | 3,391 | 100.0 |

Dengys y tabl isod ym mha dalgylch ysgol uwchradd yr oedd yr ymatebwyr yn byw ynddo.

| Dalgylch ysgol uwchradd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Friars / Tryfan | 513 | 15.1 |
| Dyffryn Ogwen | 356 | 10.5 |
| Syr Hugh Owen | 352 | 10.4 |
| Dyffryn Nantlle | 245 | 7.2 |
| Brynrefail | 193 | 5.7 |
| Y Moelwyn | 178 | 5.2 |

| | | |
|---|---|---|
| Ardudwy | 110 | 3.2 |
| Glan y Môr | 87 | 2.6 |
| Y Berwyn | 87 | 2.6 |
| Eifionydd | 65 | 1.9 |
| Botwnnog / Glan y Môr | 60 | 1.8 |
| Bro Idris | 48 | 1.4 |
| Uwchradd Tywyn | 47 | 1.4 |
| Botwnnog | 45 | 1.3 |
| Friars / Tryfan / Dyffryn Ogwen | 14 | 0.4 |
| Felinheli | 9 | 0.3 |
| Dim ardal wedi'i adnabod | 982 | 29.0 |
| Total | 3,391 | 100.0 |

## 3.03 Wyt ti'n rhiant neu ofalwr?

Mae 11.2% (N=379) o'r ymatebwyr yn rhiant neu ofalwr.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 379 | 11.2 |
| Na | 2,915 | 86.0 |
| Dim ateb | 97 | 2.9 |
| | 3,391 | 100.0 |

## 3.03 Mae pobl ifanc Gwynedd wedi dweud wrthym y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid ganolbwyntio ar y canlynol

- **Datblygu Sgiliau**
- **Datblygiad Personol**
- **Cefnogaeth Iechyd a Lles**

**Beth yw eich barn chi?**

Gweler o'r tabl isod fod bron i draean (30.2%, N=1,023) o'r ymatebwyr yn teimlo fod hyn yn grêt, gyda sgôr o 1, traean ohonynt (33.1%, N= 1,122) yn rhoi sgôr o 2, a chwarter (25.3%, N=857) yn rhoi sgôr o 3. Ychydig iawn o'r ymatebwyr sydd wedi rhoi sgôr o 4 a 5 (10.7% efo'i gilydd).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 1 - grêt | 1,023 | 30.2 |
| 2 | 1,122 | 33.1 |
| 3 | 857 | 25.3 |
| 4 | 214 | 6.3 |
| 5 - gwael | 149 | 4.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Dim ateb | 26 | 0.8 |
| | 3,391 | 100.0 |

Gellir gweld o'r tabl isod fod yna ychydig o wahaniaethau barn rhwng y grwpiau oedran. Mae canran uwch o'r rhai dros 24 oed yn rhoi sgôr o 1, gyda chanran uwch o'r rhai 11 i 15 oed efallai ddim yn gallu penderfynu ac yn rhoi sgôr o 3, a chanran uwch o'r rhai o dan 11 oed yn rhoi sgôr o 5, sef gwael.

| | Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed | | Dwi'n berson ifanc 11-15 oed | | Dwi'n berson ifanc 16-24 oed | | Dwi dros 24 oed | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 1 - grêt | 15 | 25.0 | 626 | 26.8 | 146 | 30.9 | 217 | 47.4 | 19 | 54.3 |
| 2 | 21 | 35.0 | 788 | 33.7 | 187 | 39.5 | 117 | 25.5 | 9 | 25.7 |
| 3 | 7 | 11.7 | 681 | 29.1 | 101 | 21.4 | 66 | 14.4 | 2 | 5.7 |
| 4 | 5 | 8.3 | 138 | 5.9 | 29 | 6.1 | 38 | 8.3 | 4 | 11.4 |
| 5 - gwael | 12 | 20.0 | 106 | 4.5 | 10 | 2.1 | 20 | 4.4 | 1 | 2.9 |
| Cyfanswm | 60 | 100.0 | 2,339 | 100.0 | 473 | 100.0 | 458 | 100.0 | 35 | 100.0 |

## 3.04 Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod angen pethau gwahanol wrth iddyn nhw dyfu fyny. Mae pobl ifanc eisiau:

- **Rhaglen o weithgareddau hwyliog pan yn 11-19 oed**
- **Cefnogaeth un i un pan yn 16-25 oed**

**Beth yw eich barn chi?**

Gwelir canlyniadau eithaf tebyg i'r cwestiwn yma ag y cwestiwn blaenorol. Mae bron i draean o'r ymatebwyr yn rhoi sgôr o 1 (31.8%, N=1,078), bron i draean yn rhoi sgôr o 2 (30.6%, N=1,036), a chwarter o'r ymatebwyr yn rhoi sgôr o 3 (25.5%, N=864). Ychydig iawn o'r ymatebwyr sydd wedi rhoi sgôr o 4 a 5 (11.3% efo'i gilydd).

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 1 - grêt | 1,078 | 31.8 |
| 2 | 1,036 | 30.6 |
| 3 | 864 | 25.5 |
| 4 | 214 | 6.3 |
| 5 - gwael | 170 | 5.0 |
| Dim ateb | 29 | 0.9 |
| | 3,391 | 100.0 |

Gwelir patrwm tebyg i'r cwestiwn blaenorol yn y gwahaniaethau barn rhwng oedrannau gwahanol. Mwy o blant o dan 11 oed yn rhoi sgôr 5 sef gwael, canran uwch o'r rhai dros 24 oed yn rhoi sgôr o 1 sef grêt, a chanran uwch o'r plant rhwng 11 ac 15 oed yn rhoi sgôr o 3.

| | Dwi'n berson ifanc o dan 11 oed | | Dwi'n berson ifanc 11-15 oed | | Dwi'n berson ifanc 16-24 oed | | Dwi dros 24 oed | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 1 - grêt | 21 | 35.6 | 704 | 30.0 | 149 | 31.6 | 187 | 41.3 | 17 | 48.6 |
| 2 | 18 | 30.5 | 718 | 30.6 | 166 | 35.2 | 125 | 27.6 | 9 | 25.7 |
| 3 | 3 | 5.1 | 668 | 28.5 | 106 | 22.5 | 82 | 18.1 | 5 | 14.3 |
| 4 | 4 | 6.8 | 136 | 5.8 | 34 | 7.2 | 37 | 8.2 | 3 | 8.6 |
| 5 - gwael | 13 | 22.0 | 118 | 5.0 | 16 | 3.4 | 22 | 4.9 | 1 | 2.9 |
| Cyfanswm | 59 | 100.0 | 2344 | 100.0 | 471 | 100.0 | 453 | 100.0 | 35 | 100.0 |

## 3.05 Mae'r fidio ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch unrhyw beth da am hyn.

Dengys y tabl isod y themâu a gododd fel ymateb i'r cwestiwn uchod. Gweler fod bron i un o bob pump ymateb wedi rhoi ymateb negyddol cyffredinol e.e. 'na'. Roedd bron i un o bob 10 wedi nodi ei fod yn rhoi cyfleoedd da i bobl ifanc / mwy o weithgareddau, ac hefyd bron i un o bob 10 yn ymateb yn positif yn gyffredinol e.e. 'da'.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ymateb negyddol cyffredinol e.e na /dim | 833 | 21.0 |
| Dim ymateb | 465 | 11.7 |
| Cyfleoedd da i bobl ifanc/mwy o weithgareddau | 348 | 8.8 |
| Ymateb positif cyffredinol e.e da | 333 | 8.4 |
| Datblygu Sgiliau / Dysgu / Achrediadau | 293 | 7.4 |
| Cymdeithasu | 271 | 6.8 |
| Cefnogaeth / Cymorth / Cyngor | 231 | 5.8 |
| Cyfle i mwy o bobl | 170 | 4.3 |
| Hwyl | 138 | 3.5 |
| Pecyn eglur | 103 | 2.6 |
| Aelodaeth am ddim | 95 | 2.4 |
| Rhywbeth i'r plant wneud (allan o'r ty / allan o drwbwl ayb) | 75 | 1.9 |
| Clybiau teithiol | 69 | 1.7 |
| Cadw clybiau ar agor | 57 | 1.4 |
| Cyfle i gadw yn iach/ffitrwydd/chwaraeon | 55 | 1.4 |
| Codi hyder | 52 | 1.3 |
| Cyd-weithio hefo mudiadau eraill | 49 | 1.2 |
| Arall / Aneglur / Amherthnasol | 46 | 1.2 |

| | | |
|---|---|---|
| Da eu bod yn gofyn barn pobl ifanc | 45 | 1.1 |
| Ddim angen trafeilio yn bell | 42 | 1.1 |
| Cydweithio efo ysgolion | 32 | 0.8 |
| Arbed arian i'r Cyngor | 24 | 0.6 |
| Helpu pobl cael swydd | 16 | 0.4 |
| Clwb coginio | 13 | 0.3 |
| Helpu plant efo problemau iechyd | 13 | 0.3 |
| Cydweithio rhwng clybiau | 11 | 0.3 |
| Mwy o arian i'r gwasanaeth | 11 | 0.3 |
| Cadw cymunedau hefo'i gilydd | 10 | 0.3 |
| Arian yn mynd i'r gymuned | 10 | 0.3 |
| Angen Dug Caeredin | 10 | 0.3 |
| Diogel | 9 | 0.2 |
| grwp celf | 8 | 0.2 |
| Yn erbyn cau canolfannau | 8 | 0.2 |
| Pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth | 6 | 0.2 |
| Angen mwy o fanylion | 4 | 0.1 |
| Mwy o dripiau | 4 | 0.1 |
| Gweithgareddau yn y Gymraeg | 1 | 0.0 |
| Peryg i rhai pobl ifanc fethu allan | 1 | 0.0 |
| | 3,961 | 100.0 |

Rydym wedi edrych ar y gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgol gwahanol. Mae rhai gwahaniaethau o themâu yn codi o fewn ardaloedd penodol. Mae canran uwch o blant yn ardal dalgylch ysgol Botwnnog / Glan y Môr ac Eifionydd yn nodi ymateb positif cyffredinol e.e. da. Mae canran uwch o bobl yn dalgylchoedd ysgolion Ardudwy, Botwnnog a Glan y Môr yn nodi cyfle i mwy o bobl. Roedd y thema ymateb negyddol cyffredinol e.e. na, yn eithaf uchel ym mhob dalgylch, ond ychydig yn llai yn ardaloedd Glan y Môr, Eifionydd, Dyffryn Nantlle, Bro Idris a Botwnnog. Roedd canan uwch o ymatebwyr yn dalgylch ysgol Y Berwyn wedi nodi'r thema cymdeithasu. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalgylchoedd ysgolion Friars, Tryfan Dyffryn Ogwen a Brynrefail wedi nodi'r thema cefnogaeth / cymorth / cyngor.

Gellir gweld gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau oedran o fewn y themau a gododd yn y cwestiwn hefyd. Yn gyffredinol, roedd canran o'r pobl oedd wedi ymateb yn negyddol e.e. 'na' yn uchel ar draws pob grŵp oedran, ond ychydig yn llai yn y grŵp dros 24 oed. Roedd canran uwch o ymatebwyr o dan 11 wedi nodi cymdeithasu fel rhywbeth da. Roedd canran uwch o'r grŵp oedran 16-24 wedi nodi cefnogaeth / cymorth / cyngor. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr o dan 11 oed wedi nodi hwyl.

## 3.06 Mae'r fidio ar gychwyn yr holiadur yn egluro sut gall y Gwasanaeth Ieuenctid weithio yn y dyfodol. Nodwch unrhyw beth fyddai'n eich poeni.

Dengys y tabl isod y themâu a gododd o’r cwestiwn uchod.  Gweler fod dros draean o’r ymatebion yn nodi bod dim byd yn eu poeni.  O’r pethau sydd yn eu poeni, y rhai sy’n rancio yn uchaf yw bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian, gorfod trafeilio’n bell / dim darpariaeth leol a'i fod yn rhy debyg i ysgol / angen gweithgareddau hwyliog / ddim yn mwynhau’r gweithgareddau.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dim byd yn eu poeni | 1,386 | 38.0 |
| Fy nghlwb ieuenctid yn cau/nunlle i fynd / diffyg arian | 510 | 14.0 |
| Heb ateb | 395 | 10.8 |
| Gorfod trafeilio'n bell (enwedig yn y tywyllwch)/ dim darpariaeth lleol - llai o blant yn mynychu | 287 | 7.9 |
| Rhy debyg i ysgol / Angen mwy o weithgareddau hwyliog / ddim yn mwynhau'r gweithgareddau | 217 | 6.0 |
| Llai o gefnogaeth i glybiau / mudiadau e.e. Ffermwyr Ifanc a'r Urdd - llai o gefnogaeth a phrofiadau i unigolion | 155 | 4.3 |
| Amser cynnal y clybiau / ddim digon rheolaidd | 87 | 2.4 |
| Mwy o blant ar y stryd / Cynnydd mewn trosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol os bydd clybiau yn cau | 80 | 2.2 |
| Cost y gwasanaeth newydd | 52 | 1.4 |
| Clybiau rhy fawr yn y dyfodol - gormod o blant / ystod rhy eang o oedran | 48 | 1.3 |
| Ddim yn siŵr beth sy'n cael ei gynnig / sut ddaethpwyd at y cynnig yma i gychwyn | 43 | 1.2 |
| Poeni am fwlio / ffraeo | 41 | 1.1 |
| Colli ffrindiau oherwydd bod y clwb lleol yn cau | 41 | 1.1 |
| Pentrefi a chymunedau gwledig yn cael eu hanwybyddu | 39 | 1.1 |
| Diffyg cefnogaeth i blant hŷn / tu allan i ysgol sydd mewn gwaith neu hyfforddiant | 38 | 1.0 |
| Nid ydy'r newidiadau yma yn mynd i weithio | 38 | 1.0 |
| Colli perthynas efo'r gweithwyr ieuenctid unigol / dim cysondeb | 36 | 1.0 |
| Cyfarfod plant / pobl newydd | 34 | 0.9 |
| Ei fod yn cael ei gynnal mewn ysgol | 32 | 0.9 |
| Cael gwybodaeth am y clybiau yn y dyfodol | 19 | 0.5 |
| Na fydd na ddarpariaeth ar gyfer grwpiau gwahanol o blant e.e. plant anabl, anghenion dysgu | 17 | 0.5 |
| Dim gwasanaeth un i un yn cael ei gynnig i bob oedran | 14 | 0.4 |
| Dirywiad yn yr iaith Gymraeg | 8 | 0.2 |
| Arall | 7 | 0.2 |
| Dim gwasanaethau i blant o dan 11 oed | 6 | 0.2 |
| Angen stopio ariannu grwpiau allanol | 6 | 0.2 |
| Lleoliad ddim yn saff/lân a thaclus | 5 | 0.1 |
| Colli adeiladau gwerthfawr i'r gymuned os bydd y clwb yn cau | 4 | 0.1 |
| Cyfanswm Sylwadau | 3,645 | 100.0 |

Gellir gweld gwahaniaethau rhwng dalgylchoedd ysgol a'r themâu sy'n codi.  Roedd canran eithaf uchel ar draws yr ardaloedd yn nodi fod dim byd yn eu poeni.  Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalchylchoedd ysgol Glan y Môr a Bro Idris yn nodi llai o gefnogaeth i glybiau / mudiadau.  Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dalgylchoedd Y Moelwyn, Syr Hugh Owen, ac Uwchradd Tywyn yn nodi bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian yn eu poeni.

Gellir gweld gwahaniaethau o fewn grwpiau oedran gwahanol hefyd.  Roedd canran llawer llai o ymatebwyr dros 24 oed wedi nodi fod ddim byd yn eu poeni.  Roedd canran llawer uwch o blant o dan 11 oed wedi nodi bod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle i fynd / diffyg arian yn eu poeni.

## 3.07 Beth fyddai'n dy rwystro rhag cymryd rhan?

Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r atebion i'r cwestiwn uchod.  Gweler fod ychydig dros traean o'r ymatebwyr wedi nodi y bysai yna ddim rhwystr i'w stopio rhag cymryd rhan.  Ond y rhwystr fwyaf a nodwyd oedd pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno.

| **Thema** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---:|---:|
| Dim rhwystr | 1,344 | 36.8 |
| Pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno | 609 | 16.7 |
| Heb ateb / amherthnasol | 513 | 14.0 |
| Rhy brysur - diddordebau eraill | 230 | 6.3 |
| Gweithgaredd/cwrs ddim yn apelio / diffyg diddordeb / Newidiadau yn swnio yn ddiflas iawn a dim hwyl | 192 | 5.3 |
| Cost teithio / gweithgareddau | 118 | 3.2 |
| Neb o fy ffrindiau yn mynd | 85 | 2.3 |
| Gormod o blant / plant deithr | 78 | 2.1 |
| Toriadau yn golygu na fydd clwb ieuenctid / Clwb Ffermwyr Ifanc yn bodoli | 77 | 2.1 |
| Gwaith ysgol | 67 | 1.8 |
| Amser/diwrnod / amlder mae'r clwb yn cael ei gynnal | 63 | 1.7 |
| Diffyg hyder / gor bryder | 42 | 1.1 |
| Oedran – dwi'n rhy hen | 41 | 1.1 |
| Plant / pobl ifanc yn cambyhafio / bwlio yno | 32 | 0.9 |
| Cael ei gynnal yn yr ysgol | 30 | 0.8 |
| Ddim yn cytuno gyda'r split grwpiau oedran / gweithgareddau un i un | 29 | 0.8 |
| Diffyg strwythur / gwybodaeth / cyfarfodydd rheolaidd | 20 | 0.5 |
| Dim digon o wybodaeth am effaith y newidiadau eto i benderfynu | 16 | 0.4 |
| Salwch | 13 | 0.4 |
| Ddim yn ymwybodol o'r clwb | 11 | 0.3 |
| Diffyg Gweithwyr ieuenctid / cyswllt efo'r un gweithiwr | 11 | 0.3 |
| Clybiau yn gwahaniaethu - dim darpariaeth ar gyfer pawb e.e. pobl ifanc gyda anableddau, oherwydd eu rhywioldeb, rhwystrau iaith | 9 | 0.2 |
| Tywydd | 8 | 0.2 |
| Ddim yn cael gan fy rhieni | 7 | 0.2 |
| Mewn trwbwl efo'r heddlu | 3 | 0.1 |
| Iaith - gormod o ddefnydd o'r Saesneg | 3 | 0.1 |
| Oedran - rhy ifanc | 2 | 0.1 |

| | | |
|---|---|---|
| | 3,653 | 100.0 |

Drwy edrych ar y gwahaniaethau o'r themâu o fewn dalgylchoedd, gwelir fod y thema 'dim rhwystr' yn etihaf uchel ar draws pob dalgylch, yn enwedig Friars, Tryfan a Dyffryn Ogwen.  Roedd 'pellter o glwb / lleoliad teithiol / teithio yno' yn uwch yn dalgylchoedd Y Moelwyn, Uwchradd Tywyn, Ardudwy, Botwnnog, Dyffryn Nantlle a Brynrefail.  Mae canran uwch o bobl yn dalgylch ysgol Friars / Tryfan / Dyffryn Ogwen yn nodi eu bod yn rhy brysur - diddordebau eraill.  Roedd canran uwch o bobl yn dalgylch ysgol Glan y Môr wedi nodi bod y toriadau yn golygu na fydd clwb ieuenctid / clwb ffermwyr ifanc yn bodoli.

Gellir gweld gwahaniaethau o fewn grwpiau oedran gwahanol hefyd.  Roedd canran llai o bobl dros 24 oed yn nodi fod yna ddim rhwystr.  Roedd canran uwch o'r oedrannau o dan 11 oed ac 11 i 15 oed wedi nodi y buasai pellter o glwb, lleoliad / teithio yno yn eu rhwystro rhag cymryd rhan.